

Tasg 1

Gŵyl yn y ddinas

Beth? Ble? Pryd?

Ewch i: <http://tafwyl.org/>

1. Chwiliwch am wybodaeth i ateb y cwestiynau yma:

Beth sy'n digwydd?

Ble mae hyn yn digwydd yn 2018?

Pryd mae hyn yn digwydd yn 2018?

Am faint mae'r ŵyl yn para?

Pwy sy'n mynd?

2. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir**.

		Cywir	Anghywir
a.	Yn 2018 bydd yr ŵyl Tafwyl gyntaf yn cael ei chynnal.		
b.	Mae croeso i bobl gynnig syniadau am ddigwyddiadau diddorol.		
c.	Mae'r swyddogion yn chwilio am bobl i wirfoddoli yn yr ŵyl.		
ch.	Roedd gŵyl y llynedd mewn lle gwahanol i'r arfer.		
d.	Bandiau mawr Saesneg sy'n canu yn yr ŵyl eleni.		
dd.	Mae tocynnau oedolion yn ddrutach na thocynnau plant.		

Os nad ydych chi wedi dod o hyd i'r wybodaeth yn **1.** uchod, chwiliwch am wybodaeth ar y wefan i'ch galluogi i wneud y dasg yma.

Cywirwch y brawddegau anghywir.

3. Rydych chi'n mynd i greu taflen i hysbysebu'r wyl.

Defnyddiwch y wybodaeth rydych chi wedi dod o hyd iddi'n barod ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol.

Cynlluniwch y daflen.

Y cynnwys:

- Cefndir
- Gŵyl eleni
 - pryd
 - am faint bydd yr wyl yn para
 - ble
 - beth yn union fydd yn digwydd
- Y manylion cyswllt (rhag ofn y bydd rhywun eisiau mwy o wybodaeth)
- Unrhyw wybodaeth arall

Y dylunio:

- Meddyliwch am y dyluniad – sut rydych chi'n mynd i osod y wybodaeth, pa ffont, pa faint, pa liwiau ac ati.
- Chwiliwch am luniau addas.
- Ydych chi eisiau cynnwys delwedd arall, e.e. map neu amserlen?

4. Ar ôl gorffen, dangoswch eich taflen i'r grŵp.

5. Gwerthuswch waith eich gilydd.